# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2022/2023 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dilwyn Morgan, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **Swyddog perthnasol:** | Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Tachwedd 2023 |

**1. Penderfyniad a geisir:**

Gofynnir i'r Cabinet nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2022/2023 yn y meysydd gwaith sy'n cael eu dwyn ymlaen yn rhanbarthol trwy Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid mewn perthynas â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2022/23.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gofyn bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol i Lywodraeth Cymru.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/ Cyflwyniad**

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau.

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol ac adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol).

Amcanion allweddol Rhan 9 y Ddeddf yw:

- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau
- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r adroddiad sydd wedi ei atodi yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y Canllawiau hynny.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae'r chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru yn cronni cyllid i gefnogi gweithio rhanbarthol ar draws y Rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn. Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ail-gydbwyso. Lle mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

Nid oes asesiad effaith llesiant cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol, ond, bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo. Bu ymgynghori anffurfiol ar yr Adroddiad Blynyddol gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth gan gynnwys dinasyddion a gofalwyr.

**3.3 Camau nesaf**

Dim i'w nodi

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Yn 2022-23, fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae dyfarniad cyllidebau partneriaeth a grantiau i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi galluogi ariannu gweithgareddau a rheoli ffrydiau gwaith y Bwrdd. Rwyf yn fodlon fod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r gweithgareddau hyn.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Rhestr Atodiadau:**

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 2022/2023